**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16eg Gorffennaf 2012**

**DATBLYGU SAFON YMATEB**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu Safon Ymateb i Danau mewn Anheddau.

## Cyflwyniad

2 Rhwng 1944 a 2003, cafodd amryw o safonau cenedlaethol eu dilyn mewn perthynas â gwasanaethau tân yn y DU. Er iddynt gael eu hadolygu o bryd i'r gilydd, roedd y safonau hyn yn bennaf yn cadw'r ffocws gwreiddiol ar atal tân rhag lledu o un adeilad i'r llall, yn hytrach nag ar leihau'r risg i fywydau'r trigolion.

3 Yn 1995 roedd adroddiad gan y Comisiwn Archwilio, "In the Line of Fire", yn argymell symud y pwyslais o ddiffodd tanau (sef ymateb) i ddiogelwch tân (sef atal), ac yn dadlau y dylid ymchwilio i ofal tân yn seiliedig ar asesu risg.

4 Yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fod yn diddymu'r Safonau Gofal Tân a oedd mewn grym ar y pryd, ac yn dechrau ar broses o Gynllunio Integredig i Reoli Risg a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Tân ddatblygu ei ymateb ei hun i ddigwyddiadau, a hynny yn seiliedig ar asesu risg mewn modd a oedd yn briodol i'w sefyllfa ei hun.

5 Yn 2005, ar ôl datganoli'r cyfrifoldeb am wasanaethau tân ac achub i Gymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor i greu Safon Gwasanaeth ar gyfer Cyrraedd Tanau yn y cartref. Roedd y safon Cymreig cyntaf yn berthnasol i Gymru drwyddi draw, ac roedd yn ceisio sicrhau y byddai 80% o gartrefi yng Nghymru yn ddigon agos at adnoddau diffodd tân i alluogi injan dân i gyrraedd o fewn deng munud. Mesurwyd hyn drwy gyfeirnod i'r anheddau hynny a oedd wedi eu lleoli ar fap o fewn 'dalgylch' gorsaf dân.

6 Erbyn 2009, fodd bynnag, daeth yn amlwg fod problemau wrth gyfrif safon o'r fath. Er enghraifft, roedd y 10 munud yn caniatáu amser i griwiau'r System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw, a chriwiau'r System Criw Dydd yn ystod y nos, i ymateb i'r orsaf dân, ac roedd hynny'n golygu cyfyngu'r ardal 'o fewn y safon 10 munud' i rai oedd yn agos iawn at orsafoedd tân.

7 Nodwyd mai naturiol o beth yw y byddai'n haws cyrraedd yr 80% yn y trefi mawr a'r dinasoedd, lle mae gorsafoedd tân mewn ardaloedd adeiledig iawn, nag mewn ardaloedd gwledig lle mae'r anheddau wedi eu lledaenu dros ardal llawer ehangach.

8 O'r herwydd, fe wnaeth adolygiad o Safonau Gwasanaeth i Danau yn y Cartref arwain Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffordd arall a fyddai'n fwy cymwys i wahanol broffiliau ardaloedd y tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA). Byddai'n ofynnol i bob ATA ddatblygu meini prawf ei hun ar gyfer ymateb i danau mewn anheddau, ac i ymgynghori'n lleol arnynt, yn amodol ar un gyfres o 'egwyddorion arweiniol' a roddir gan Lywodraeth Cymru.

9 Mae Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân ac Achub a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012 yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wella diogelwch y cyhoedd trwy ostwng nifer yr achosion o farwolaethau, anafiadau a thanau damweiniol mewn anheddau domestig, ac ar yr un pryd leihau anafiadau diffoddwyr tân wrth eu gwaith. Bydd yr Egwyddorion Arweiniol yn cefnogi'r ATAau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol, ac ar yr un pryd yn cydnabod y gwahaniaethau sydd rhwng ardaloedd yr Awdurdodau.

## Gwybodaeth

10 Mae disgwyl i bob ATA ddatblygu meini prawf ei hun ar ymateb lleol ac ymgynghori arnynt, a'u cyhoeddi yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14.

11 A chyfle ganddynt i gael dull ar y cyd wrth ddatblygu meini prawf ymateb lleol, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub wedi cyd-lunio 'Siarter Ymateb Cymru gyfan i Danau mewn Anheddau, i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol sydd newydd gael ei sefydlu.

12 Mae'r Siarter ddrafft yn cymryd ystyriaeth o'r gofyniad i ATAau lunio meini prawf ymateb lleol, ac ymgynghori arnynt, ond hefyd yn manteisio ar y cyfle i sicrhau rhyw gymaint o gysondeb trwy Gymru.

13 Os caiff y Siarter ei mabwysiadu, bydd yn rhoi darlun clir i drigolion a phreswylwyr yng Nghymru o'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub, ond heb lesteirio dewis yr ATAau i benderfynu ar yr hyn sy'n briodol yn ei ardal ei hun.

14 Felly, mater i bob ATA fyddai'r safonau perfformiad, y mesurau a'r dangosyddion penodo, a hynny yn ôl ei brosesau ei hun ar gyfer datblygu ac ymgynghori.

15 Byddai'r ATA felly yn gallu cynnwys y Siarter a'r meini prawf lleol wrth ddatblygu Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14.

## Argymhelliad

16 Bod yr aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed, a'r camau a gynigir ar gyfer y dyfodol, wrth ddatblygu Safon Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer ATA Gogledd Cymru.